CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Cais i'ch Lwfans Tai Lleol gael ei dalu'n uniongyrchol i'ch Landlord

Nodiadau Canllaw

Darllenwch y daflen hon cyn llenwi'r ffurflen gais

Ffordd newydd o dalu Budd-dal Tai Lleol i bobl sy'n byw mewn eiddo yn y sector rhentu preifat yw'r Lwfans Tai Lleol.

Fel arfer, caiff y Lwfans Tai Lleol ei dalu i'r tenant, ac ni all tenantiaid ofyn i'r taliad gael ei wneud yn uniongyrchol i'r landlord.

Mewn rhai amgylchiadau, mae'n **rhaid** talu'r Lwfans Tai Lleol yn uniongyrchol i'r landlord, e.e. :

- Os oes gan y tenant ôl-ddyled rhent o 8 wythnos lawn neu ragor
- Os oes swm yn cael ei ddidynnu o Gymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith y tenant i dalu ôl-ddyledion rhent.

Gallwn hefyd benderfynu talu'r Lwfans Tai Lleol yn uniongyrchol i'r Landlord os ydym yn credu bod y tenant yn annhebygol o dalu'r rhent, neu os na all dalu'r rhent oherwydd eu bod yn agored i niwed neu oherwydd bod ganddynt anawsterau ariannol difrifol:

Beth yw ystyr 'annhebygol o dalu'r rhent'?

- Mae gan denant ôl-ddyledion rhent ac mae wedi methu talu'r rhent yn gyson.
- Mae tenant wedi gadael eiddo yn y gorffennol gan adael ôl-ddyledion rhent.

Beth yw ystyr 'anawsterau ariannol'?

- Pobl nad ydynt yn gallu agor cyfrif banc/cymdeithas adeiladu.
- Pobl sydd â dyledion difrifol.
- Pobl sydd yn fethdalwyr.

Beth yw ystyr 'yn agored i niwed'?

Mae rhywun yn agored i niwed os ydynt yn cael trafferth rheoli eu harian a gall hyn gynnwys pobl:

- sydd â chyflwr meddygol
- sydd ag anawsterau dysgu
- sydd ag anableddau corfforol
- sydd â phroblemau iechyd meddwl
- sy'n anllythrennog neu'n methu siarad Saesneg
- sy'n byw ar eu pennau eu hunain heb gymorth
- sy'n cael cymorth gan elusen i'r digartref
- sy'n gaeth i alcohol/sylweddau/gamblo
- sy'n ddigartref
- sy'n cael arian gan y Grant Cynnal Pobl.

Nid yw'r rhestr uchod yn gwbl gynhwysfawr ac mae'n bosibl bod tenant yn agored i niwed am resymau eraill.

Pa dystiolaeth sydd ei hangen?

Ym mhob achos, rhaid i ni gael tystiolaeth ysgrifenedig a bydd y dystiolaeth sydd ei hangen yn dibynnu ar amgylchiadau'r tenant.

Dyma rai o'r bobl a all roi tystiolaeth:

- Teulu neu ffrindiau'r tenant
- Y landlord
- Grwpiau lles
- Gweithwyr gofal
- Cynghorwyr Ariannol a Dyledion
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Meddyg Teulu
- Swyddogion Prawf
- Canolfan Byd Gwaith
- Y Gwasanaeth Pensiynau
- Gweithwyr cymorth
- Nyrsys cymuned
- Ysbytai
- Llysoedd

Nid yw'r rhestr uchod yn gwbl gynhwysfawr ac mae'n bosibl y bydd angen i ni gael caniatâd y tenant i gysylltu â thrydydd parti ar eu rhan.

Penderfyniad

Ar ôl casglu tystiolaeth, byddwn yn penderfynu cyn gynted â phosibl a ddylem dalu'r Lwfans Tai Lleol i'r landlord yntau i'r tenant.

Gallwn dalu'r Lwfans Tai Lleol i'r landlord tra byddwn yn dod i benderfyniad. Byddwn yn dweud wrth y tenant os byddwn yn credu ei fod yn agored i niwed, a byddwn yn ysgrifennu at y tenant neu ei gynrychiolydd ac yn egluro'r penderfyniad.

Adolygu'r penderfyniad

Os penderfynwn dalu'r landlord, byddwn yn pennu dyddiad adolygu pan fyddwn yn trafod a yw amgylchiadau'r tenant wedi newid. Mae'n bosibl wedyn mai'r tenant fydd yn cael y taliad.

Fel arfer, byddwn yn gweithio gyda'r tenantiaid i'w helpu i reoli eu harian a derbyn taliadau uniongyrchol y Lwfans Tai Lleol.

Bydd hyn yn cynnwys:
- Helpu'r tenant i agor cyfrif banc.
- Cyfeirio'r tenant at yr asiantaeth briodol i gael cyngor a chymorth cyfreithiol ynghylch dyledion difrifol.

Apelio

Os yw'r tenant neu'r landlord yn anghytuno â'n penderfyniad, gallant apelio. Mae rheolau'r yr un fath â rheolau'r Budd-dal Tai. Gofynnwch am wybodaeth am hyn. Mae'r manylion cysylltu ar ddiwedd y daflen hon.

Gwybodaeth ychwanegol

Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni:
Rhif ffôn: 01352 704848. Mae'r llinell gymorth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 8.30am - 5pm.
Ebost: benefits@flintshire.gov.uk
Cyfeiriad: Yr Adran Budd-daliadau, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug. CH7 6NR. Mae'r swyddfa ar agor i ymwelwyr o ddydd Llun i ddydd Gwener 8.30am - 5pm a does dim angen gwneud apwyntiad.
.